Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Intern Gwyddor Data Poblogaethau |
| **Adran/Pwnc:** | Meddygaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 03 £23,477 y flwyddyn (pro rata) ynghyd â buddion pensiwn NEST |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon am 12 wythnos gan ddechrau ddydd Llun 22 Mehefin 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton. |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Mae grŵp Gwyddor Data Poblogaethau Prifysgol Abertawe (https://popdatasci.swan.ac.uk/cy/) yn cefnogi ymchwil sy'n arwain y byd i ddatblygu offer a methodolegau dadansoddol arloesol i fynd i'r afael â'r heriau ymchwil iechyd mwyaf dybryd. Mae ein tîm o arbenigwyr yn datblygu dulliau gwyddor data uwch ac yn eu rhoi ar waith, gan ddefnyddio data clinigol, biolegol a genomig, ynghyd â data iechyd amlddimensiynol arall, i fynd i'r afael â heriau ymchwil iechyd pennaf y cyhoedd.<br><br>Mae'r grŵp Gwyddor Data Poblogaethau yn gartref i ymchwilwyr a gwyddonwyr data blaenllaw sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni â'r nod o wella gwasanaethau a bywydau pobl drwy ymchwil ym maes gwyddor data poblogaethau. Mae'r tîm amlddisgyblaethol hwn yn gweithio mewn amgylchedd ystwyth a phrysur ac mae'n ymrwymedig i ddangos gwerth gwyddor data i amrywiaeth o gynulleidfaoedd technegol a lleyg. Gan weithio yn yr adeilad Gwyddor Data pwrpasol ar gampws Parc Singleton Prifysgol Abertawe, bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan mewn ymchwil arloesol, yn ymgysylltu â phartneriaid, yn dangos cymhwysiad ymarferol ac arbenigedd strategol, ac yn blaenoriaethu ymdrechion ac arbenigedd i gael effaith sylweddol.<br><br>Mae'r rhaglen interniaeth hon dros yr haf yn cynnig swydd gyflogedig i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn cael profiad o grwpiau ymchwil yn y byd go iawn i ddatblygu eu sgiliau a'u defnyddio yn yr amgylchedd o'r radd flaenaf hwn, lle mae lefel uchel iawn o drefniadau diogelu data ar waith. Mae'n gyfle gwych i ddatblygu'ch sgiliau drwy weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, ehangu'ch profiad a gweithio gyda'r dechnoleg ddiweddaraf i'ch cynorthwyo ar eich llwybr i gyflogaeth.<br><br>Gyda chymorth ac arweiniad, bydd interniaid yr haf yn gorfod rheoli swmp o waith yn ystod eu hinterniaeth yr haf o ran maes gwaith penodol, megis cyflwyno ymchwil, datblygu technoleg newydd, dulliau newydd neu weithgareddau technegol.<br><br>1. Cynorthwyo'r grŵp ymchwil, y bydd yr intern yn rhan ohono, gydag amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â'u gradd a/neu lwybr gyrfa.<br>2. Gweithio tuag at gwblhau tasg a drefnwyd ymlaen llaw'n llwyddiannus sy'n ymwneud â gweithgaredd yr intern a'i gyflwyno yn ôl sgiliau'r intern ac anghenion y busnes.<br>3. Cyfrannu at weithgareddau'r grŵp ymchwil drwy fynychu cyfarfodydd a chyfrannu atynt yn ogystal â gohebiaeth tîm arall.<br>4. Cyflwyno crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd ganddo yn ystod yr interniaeth yn y digwyddiad ar ddiwedd y lleoliad.<br>5. Galluogi myfyriwr israddedig neu ôl-raddedig presennol gyda sgiliau addas i ennill profiad gwyddor data o safon yn y byd go iawn. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 6. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>7. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>8. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>9. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |

| | |
|---|---|
| | 10. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>• Sgiliau TG da.<br>• Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar i weithio'n effeithiol gyda chydweithwyr.<br>• Sgiliau trefnu a gweinyddol da gyda'r gallu i flaenoriaethu a threfnu llwyth gwaith.<br>• Tystiolaeth o'r gallu i weithio mewn ffordd fanwl gywir.<br>• Profiad yn unol â rhif adnabod prosiect Intern yn y Llyfryn Interniaid Haf Gwyddor Data Poblogaethau (gweler sgiliau penodol a chefndir addas gerllaw pob rhif adnabod prosiect intern).<br>**Gwerthoedd:**<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>• Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br>Dylai ymgeiswyr feddu ar radd israddedig neu ôl-raddedig neu fod yn gweithio tuag ato mewn pwnc a fyddai'n darparu'r sgiliau perthnasol.<br>**Profiad:**<br>Does dim angen profiad.<br>**Gwybodaeth a Sgiliau:** |

| | |
|---|---|
| | Dylai fod gan ymgeiswyr allu gweithio rhesymol yn un o'r meysydd a restrir yn y rhan 'Cymwysterau'. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i gyfrannu at ymchwil weithredol (gyda chymorth a hyfforddiant).<br><br>Sylwer: Mae gennym swyddi mewn sawl maes prosiect, felly a wnewch chi gyflwyno cais i bob maes prosiect rydych yn dymuno cyrraedd y rhestr fer ar ei gyfer. A wnewch chi nodi'n glir yn eich llythyr eglurhaol pa rif prosiect rydych chi'n cyflwyno cais amdano a sut rydych yn bodloni gofynion yr 'Intern Data Gwyddor Poblogaethau - Rhif Prosiect' yr ydych yn cyflwyno cais amdano.<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Ashley Akbari - a.akbari@abertawe.ac.uk |